



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi**

**Ty Draw Road  
Llys-faen  
Caerdydd  
CF23 6XL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi

Enw'r darparwr	Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi
Awdurdod lleol	Cyngor Caerdydd
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	Catholig
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	1076
Disgyblion o oed ysgol statudol	1076
Nifer yn y chweched dosbarth	
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%)	15.1%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%)	5.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	3.2%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2018
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	01/02/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	06/03/2023

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru:

[fysgolleol.llyw.cymru](http://fysgolleol.llyw.cymru)

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi yn ceisio cyfoethogi bywydau disgyblion trwy ffydd a gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd eithriadol o uchel. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at les ac ymddygiad disgyblion, a'u hymgysylltiad â dysgu. Mae disgyblion yn mwynhau bod yn yr ysgol ac maent yn cyflawni'n dda.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn rhoi lles disgyblion a staff yn ganolog i bopeth a wnânt. Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd cryf ag amrywiaeth eang o bartneriaid i ddarparu'r cymorth gorau posibl ar gyfer disgyblion. Mae wedi datblygu dulliau hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mae gweithdrefnau trylwyr ar waith sy'n cadw'r holl ddisgyblion yn ddiogel, ac mae'r diwylliant diogelu yn treiddio ar draws yr ysgol.

Ar y cyd â'i hysgolion cynradd partner, mae'r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae pwysigrwydd addysgu da a gwybodaeth bwnc dda wrth wraidd y weledigaeth hon ac mae arweinwyr yn datblygu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae gan athrawon ddisgwyliadau priodol o uchel ar gyfer disgyblion ac maent yn sicrhau lefelau buddiol o her a chymorth yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol, ac ar hyn o bryd nid yw'r ysgol yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ddigon cryf mewn meysydd heblaw gwersi Cymraeg.

Caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli'n dda. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant o gydweithio a pharch ar y ddwy ochr, yn seiliedig ar werthoedd Catholig. Maent yn meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol sy'n cael ei rannu gan bob un o'r staff a'r disgyblion, ac yn llwyddo i hyrwyddo cymuned lle caiff pawb eu cefnogi i gyflawni.

Mae'r ysgol wedi datblygu ei phrosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn briodol. Fodd bynnag, mae diffyg manwl gywirdeb i ychydig o agweddau ar hunanwerthuso, yn enwedig mewn addysgu a dysgu, ac mae hyn yn golygu bod blaenoriaethau adrannol ac ysgol gyfan ar gyfer gwella yn tueddu i fod yn rhy eang.

## Argymhellion

- A1 Mireinio hunanwerthuso fel ei fod yn nodi'n fanwl gywir unrhyw agweddau ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella
- A2 Cynyddu ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau Cymraeg a'u medrau digidol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos, i'w lledaenu ar wefan Estyn, ar ei gwaith yn gysylltiedig â lleihau rhwystrau rhag dysgu i ddisgyblion bregus trwy godi dyhead, cefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion, a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, fel rhan o'i ymyrraeth ExCel yn canolbwyntio ar y disgybl, gan dargedu'r dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon mewn cyd-destunau newydd i ymestyn eu dysgu. Mewn ychydig o achosion, lle nad yw disgyblion yn ymgysylltu'n ddigonol â'u dysgu, neu lle mae diffygion mewn addysgu, maent yn gwneud llai o gynnydd. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando â pharch a sylw ar eu cyfoedion a'u hathrawon, ac yn defnyddio geirfa lafar addas. Maent yn rhannu eu barn yn hyderus, er bod ychydig ohonynt yn gwneud cyfraniadau byr yn unig at drafodaethau dosbarth. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio geirfa soffistigedig i fynegi eu meddyliau yn llwyddiannus, er enghraifft ar ddefnydd Dickens o gymeriadau yn 'A Christmas Carol' i roi sylwadau ar broblemau cymdeithas Oes Fictoria. Mae disgyblion eraill yn dangos dealltwriaeth drylwyr o derminoleg pwnc, er enghraifft pan fyddant yn esbonio'n ofalus y camau olynol y byddent yn eu cymryd i ddatrys problem gymhleth am debygolrwydd mewn mathemateg.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau'n llwyddiannus i ddeall, dewis a dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Mae ychydig ohonynt yn gwneud hynny â thestunau Sbaeneg hefyd. Un o'r cryfderau nodedig yw datblygiad disgyblion ynghylch dod i gasgliad a'u defnydd annibynnol arno, sy'n eu helpu i werthfawrogi gwaith awduron teithio fel Bill Bryson, er enghraifft. Mae eu sylw manwl i iaith yn eu galluogi i werthfawrogi bwriad awdur a dod i gasgliad am haenau o ystyr yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu at ystod dda o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae llawer ohonynt yn cynhyrchu ysgrifennu sy'n dechnegol gadarn ac wedi'i strwythuro'n addas, gan gynnwys ymatebion i destunau llenyddol ac wrth wneud rhagfynegiadau a llunio casgliadau yn eu hymchwiliadau gwyddoniaeth. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall diben eu hysgrifennu'n dda, nid yw lleiafrif ohonynt mor gadarn o ran eu synnwyr o gynulleidfa. O ganlyniad, maent yn gwneud dewisiadau iaith anghywir, ac nid yw eu gwaith ysgrifennu'n cynnwys y dôn gywir. Yn aml, mae disgyblion yn gwella cynnwys, strwythur a chywirdeb eu hysgrifennu trwy hunanfyfyrion beirniadol ac ymateb i adborth adeiladol gan athrawon neu gyfoedion. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn cymryd digon o sylw o adborth athrawon ac maent yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu, gan gynnwys colli rheolaeth trwy ddefnyddio comas yn anghywir a chymysgu amserau.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif cadarn. Maent yn defnyddio'r pedair rheol yn hyderus ac yn newid rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau yn rhugl. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth o ffracsiynau cywerth wrth ddefnyddio tebygolrwydd i gyfrifo nifer ddisgwyliedig y llwyddiannau mewn nifer benodol o dreialon. Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o siapiau a mesurau. Maent yn newid yn llwyddiannus rhwng gwahanol unedau a gallant gyfrifo perimedr ac arwynebeddau siapiau sy'n cynnwys rhannau o gylch. Mae cyfran debyg o ddisgyblion yn deall sut i gasglu data yn dda, er enghraifft wrth

gynllunio i ymchwilio sut mae tymheredd yn effeithio ar dwf bacteria. Maent yn llunio amrywiaeth o graffiau gwahanol yn gywir, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn dadansoddi eu graffiau i nodi tueddiadau a llunio casgliadau. Er enghraifft, yn eu gwersi daearyddiaeth, mae disgyblion yn dadansoddi'r tueddiadau yn allyriadau sylffwr deuocsid o Fynydd St Helens ac yn esbonio beth mae'r tueddiadau hyn yn ei ddangos mewn termau daearyddol. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o rif. Maent yn cael trafferth â chyfrifiadau pen. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn dadansoddi graffiau a data yn ddigon da i lunio casgliadau synhwyrol.

Yn eu gwersi Cymraeg, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, caiff disgyblion gyfleoedd cyfyngedig i ymarfer eu medrau Cymraeg llafar y tu allan i wersi Cymraeg, sy'n cyfyngu ar eu cynnydd yn y maes hwn.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau digidol yn gyfyngedig, er bod llawer ohonynt yn datblygu eu medrau creadigol yn dda mewn amrywiaeth o bynciau. Er enghraifft, mewn celf ac mewn dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn archwilio ac yn trefnu syniadau a deunyddiau i gynhyrchu darnau terfynol a wnaed yn dra ystyriol ac yn fedrus.

### **Lles ac agweddau at ddysgu**

Yn Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus. Maent yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt unrhyw broblemau, ac yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos parch mawr, ac yn gwrtais tuag at ymwelwyr, staff a'u cyfoedion. Mae disgyblion yn awyddus i ymgymryd â rolau yn ystod gwaith grŵp, yn gwrando ar gyfraniadau disgyblion eraill, ac mae llawer ohonynt yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn aeddfed. Mae disgyblion yn ymfalchïo mewn mentora cyfoedion iau ac yn cynorthwyo unrhyw ddisgyblion sydd wedi bod yn gysylltiedig ag anghydfodau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn barod i ddysgu, ac yn dal ati i ganolbwyntio. Maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi, gwasanaethau ac o gwmpas yr ysgol yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ethos dysgu'r ysgol, ac mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb yn eu gwaith. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau, ac mae llawer ohonynt yn ymateb yn bwrpasol i adborth ysgrifenedig gan athrawon. Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn ymfalchïo'n ddigonol yn y ffordd maent yn cyflwyno eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi eu perthnasoedd ag athrawon ac yn teimlo y gwrandewir arnynt, gan gynnwys eu hawgrymiadau am welliannau i'r ysgol a pha elusennau i'w cefnogi. Megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i ddisgyblion drafod eu profiadau o addysgu a dysgu. Mae'r cyngor ysgol a ffydd wedi dylanwadu ar newidiadau ynglŷn â lles fel darparu mwy o seddi allanol i ddisgyblion fwynhau yn ystod amseroedd egwyl.

Mae disgyblion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth fuddiol o gyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael i ddatblygu eu medrau corfforol yn ystod amser cinio ac ar ôl yr

ysgol. Hefyd, maent yn mwynhau cymryd rhan mewn perfformiadau amrywiol fel cyngherddau, sioeau a litwrgïau yn ystod y flwyddyn ysgol.

Mae cyflwyno system gwobrau a chosbau yn ddiweddar yn cael ei werthfawrogi gan ddisgyblion sy'n cydnabod pwysigrwydd agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn ystyried yn ofalus sut maent yn arbed a defnyddio eu pwyntiau gwobrau, gan gynnwys gwneud rhoddion elusennol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth aeddfed o sut i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae hyn yn cynnwys eu cyfranogiad mewn trafodaethau yn ystod sesiynau 'Dydd Mercher Lles' pan fyddant yn ymdrin â thestunau newyddion cyfredol, a sut i reoli eu lles eu hunain a lles pobl eraill. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na phresenoldeb disgyblion eraill. Fodd bynnag, mae pob un o'r disgyblion yn elwa ar gymorth priodol ac yn deall pwysigrwydd presenoldeb da.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn creu amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion ac yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â nhw. Mae'r athrawon hyn yn fodolau iaith da ac yn datblygu arferion effeithiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymdawelu'n gyflym i fwrw ymlaen â'u gwaith.

Mewn llawer o achosion lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd da, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus yr hyn y maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu, ac yn darparu gweithgareddau ar eu cyfer sy'n adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol. Defnyddiant amrywiaeth o ddulliau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn datblygu eu dealltwriaeth bynciol a'u medrau. Mae'r athrawon hyn yn rhoi esboniadau clir ac yn modelu eu disgwyliadau'n effeithiol. Maent yn holi disgyblion yn dda i wirio eu gwybodaeth a'u gallu i alw i gof. Yn aml, mae'r athrawon hyn yn mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth i fonitro cynnydd yn agos, ac yn rhoi adborth llafar calonogol a gwerthfawr sy'n helpu disgyblion i wella'u gwaith.

Mewn ychydig o achosion lle mae'r addysgu'n hynod gryf, mae athrawon yn angerddol dros eu pwnc, ac yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol arbenigol i ysbrydoli disgyblion. Maent yn rhagweld beth fydd disgyblion yn ei weld yn anodd ac yn cynllunio cyfres o weithgareddau sy'n adeiladu dysgu'r disgyblion yn olynol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uwch o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, a phan mae disgyblion yn barod, maent yn rhoi cyfleoedd heriol iddynt ymgorffori a chymhwyso'u dealltwriaeth a'u medrau. Mae'r athrawon hyn yn gofyn cwestiynau treiddgar, sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion, yn eu herio i ddatblygu eu hymatebion geiriol ac yn sicrhau bod eu meddwl yn canolbwyntio'n graff ar y dysgu bwriadedig.

Mewn ychydig o achosion, lle nad yw'r addysgu mor gryf, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Mae hyn fel arfer oherwydd bod athrawon yn cynllunio mwy ar gyfer yr hyn maen nhw eisiau i ddisgyblion ei wneud yn hytrach na'r hyn maen nhw eisiau iddynt ei ddysgu. Mae'r athrawon hyn yn darparu cyfleoedd annigonol i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach, neu nid ydynt yn monitro cynnydd disgyblion yn ddigon agos i nodi a mynd i'r afael â chamdybiaethau.

Mewn llawer o achosion, yn sgil adborth gan athrawon, mae disgyblion yn gwneud gwelliannau yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae sylwadau'r athrawon hyn yn nodi'n fanwl gywir beth mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella, ac maent yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i'r cyngor a roddwyd.

Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn dda i nodi'r rhai sy'n tangyflawni. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gymorth ar gyfer anghenion unigol y disgyblion hyn.

Mae arweinwyr wedi ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid i ddatblygu gweledigaeth glir ar y cyd ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Caiff y weledigaeth hon ei hategu gan ffocws cryf ar addysgu effeithiol a phwyslais ar ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau pynciol disgyblion. Mae arweinwyr wedi gweithio'n effeithiol gyda'u hysgolion cynradd partner i ddatblygu dilyniant dysgu'r disgyblion. Mae cydlynwyr meysydd dysgu a phrofiad (MDPh) yn cydweithio'n dda i nodi cyfleoedd trawsgwricwlaidd gwerth chweil; er enghraifft, yr adran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a'r adran dylunio a thechnoleg yn cyflwyno prosiect roboteg.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn diwallu anghenion a diddordebau bron pob un o'r disgyblion. Ceir ystod werthfawr o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys mathemateg ychwanegol a gwyddoniaeth driphlyg ynghyd â chysiau galwedigaethol mewn cyllid a lletygarwch. Caiff disgyblion gymorth gwerthfawr wrth wneud eu hopsiynau TGAU ac fe gânt eu cefnogi'n dda i wneud dewisiadau sy'n gweddu i'w hanghenion unigol. Mae arweinwyr yn ystyried barn disgyblion yn ofalus i sicrhau bod cynifer o ddisgyblion ag y bo modd yn gallu astudio'r pynciau o'u dewis.

Ceir ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd mewn pynciau perthnasol. Mae'r cydlynwyr medrau yn gweithio'n dda gydag adrannau i sicrhau bod tasgau'n ystyrlon a phriodol. Maent wedi darparu hyfforddiant ac adnoddau addas i staff i sicrhau ymagwedd gyson at addysgu medrau. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o brofion a gwybodaeth waelodlin i nodi disgyblion sydd angen cymorth â llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Mae'r ymyriadau a ddarperir yn cynorthwyo'r disgyblion hyn yn dda ac yn eu helpu i wneud cynnydd cadarn. Mae'r ysgol wedi archwilio a chynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion, er bod y cyfleoedd i ddisgyblion eu datblygu ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Caiff cwricwlwm yr ysgol ei gyfoethogi trwy ymweliadau addysgol niferus, gan gynnwys trip daearyddiaeth i'r Eidal ac ymweliadau â'r synagog a'r mosg lleol. Ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys nifer o glybiau chwaraeon a chlybiau academiaidd. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion berfformio mewn cynrychiadau ysgol a chanu mewn cartrefi preswyl lleol.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ddefnyddiol yn adlewyrchu materion cyfoes a gwybodaeth a gasglwyd o arolygon lles disgyblion. Ymestynnir hyn trwy drafodaethau 'Dydd Mercher Lles' a gwaith gyda phartneriaid allanol, sy'n cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol ymagwedd addas at ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Santes Dwynwen ac Eisteddfod yr ysgol ar gyfer Blynnyddoedd 7 a 8. Caiff disgyblion ychydig o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn



yr ysgol, er enghraifft yn ystod cyfnod cofrestru wrth iddynt gynnig gweddïo ar y cyd, er bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol wedi penodi llysgennad amrywiaeth sy'n gweithio'n dda gydag adrannau i ddatblygu ac ymgorffori cyfleoedd gwerthfawr i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant. Mae'r ysgol hefyd yn dathlu diwylliant amrywiol ei chymuned pan fydd disgyblion yn gwisgo yn eu gwisgoedd cenedlaethol ar Ddiwrnod Ieithoedd y Byd, er enghraifft.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi yn gymuned ofalgar ac anogol. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer lles disgyblion a staff, sy'n cael ei hategu gan ei hethos Catholig ac yn canolbwyntio ar bob aelod o gymuned yr ysgol i fod yn sylwgar, yn dosturiol a gonest. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo'r weledigaeth hon yn gyson ac mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r lefelau uchel o gymorth a gânt. Mae perthnasoedd gweithio pwrpasol a pharchus rhwng staff a disgyblion, a chymorth teilwredig pwerus ar gyfer dysgwyr bregus, wedi creu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus.

Mae arweinwyr yn angerddol am ofalu am yr holl ddisgyblion. Maent wedi datblygu strategaethau gwerthfawr i gefnogi lles disgyblion a mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o broblemau emosiynol ac iechyd meddwl. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cyflogi nyrs hyfforddedig sy'n darparu cymorth cyntaf mewn iechyd meddwl ac yn cyfeirio disgyblion hynod fregus at y cymorth allanol perthnasol. Mae arweinwyr yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid allanol, gan gynnwys yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, ac elusennau amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth da. Mae hyn yn nodwedd nodedig yng ngwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei ffocws ar fynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu ac wedi datblygu strategaethau gwerthfawr i ailennyn diddordeb, a chodi dyheadau, disgyblion sydd wedi ymddieithrio fwyaf. Ar ôl y pandemig, cyflwynodd yr ysgol 'Raglen ExCEL', sef dull hynod lwyddiannus a chreadigol sy'n canolbwyntio'n benodol ar wella agweddau disgyblion targedig at ddysgu a datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd da. Mae'r ysgol wedi datblygu ymagwedd ddefnyddiol hefyd at gynorthwyo disgyblion sy'n absennol yn barhaus trwy ei hymyrraeth 'Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol'. Cyflwynwyd strategaeth i fonitro presenoldeb a rheoli ymyriadau yn ehangach yn ddiweddar fel rhan o waith parhaus yr ysgol i wella presenoldeb disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhaglen ABCh wedi hen ennill ei phlwyf ac yn cael ei chyflwyno trwy wersi lles ar wahân, gweithgareddau amser dosbarth ac ar draws meysydd perthnasol y cwricwlwm. Caiff y ddarpariaeth ABCh ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'n ystyried materion cyfredol fel gwrywdod gwenwynig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryf ac fe gaiff ei heffaith ei gwerthuso'n rheolaidd, trwy hunanwerthuso gofalus ac olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr yn erbyn targedau personoledig. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith. Mae'n

arwain tîm effeithiol, a thrwy gyfathrebu clir, yn sicrhau bod staff yn rhannu ei gweledigaeth ar gyfer diwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae'r tîm hwn wedi datblygu perthnasoedd hynod effeithiol â rhieni ac yn gwranddo ar safbwyntiau disgyblion trwy adolygiadau gwerthfawr yn canolbwyntio ar unigolion. Caiff disgyblion ag ADY eu cynorthwyo'n dda gan yr ysgol mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru. Mae hyn yn eu helpu i symud ymlaen yn llwyddiannus ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn deall ac yn meithrin diwylliant o ddiogelu. Mae'r tîm diogelu yn darparu hyfforddiant defnyddiol a rheolaidd i helpu staff i ymateb i unrhyw bryderon yn ddiwyd ac yn brydlon. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag asiantaethau allanol wrth ymateb i bryderon ynghylch amddiffyn plant. Ceir trefniadau trylwyr a phriodol ar gyfer recriwtio staff a phobl sydd mewn cysylltiad â disgyblion yn ddiogel.

Mae gan yr ysgol bolisi effeithiol ar berthnasoedd cadarnhaol sy'n darparu strategaethau gwerthfawr ar gyfer staff i ddelio ag unrhyw ymddygiad aflonyddgar. Ymchwilir yn brydlon i achosion o fwlio honedig, ac mae'r ysgol yn cynnwys cyfathrebu effeithiol â rhieni a gofawyr. Mae'r ysgol yn gofyn am farn disgyblion yn rheolaidd i fireinio a gwella gweithredu eu strategaeth lles, sy'n cyfrannu at y ffaith fod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a diffiniedig ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar feithrin diwylliant o degwch a hyrwyddo'r ethos Catholig. Mae'r ymdeimlad cryf hwn o ddiben moesol a rennir gan arweinwyr a staff, yn treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol ac yn hanfodol wrth greu cymuned ofalgar sy'n cefnogi llwyddiant ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae'r pennaeth a'i uwch dîm yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Maent yn hyrwyddo a modelu ymddygiadau cadarnhaol yn effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar eu cyfer eu hunain, ar gyfer staff a disgyblion. Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi aildrefnu strwythurau a phrosesau arwain fel eu bod yn cyd-fynd yn fwy effeithlon â blaenoriaethau'r ysgol. Mae wedi ailstrwythuro rolau arwain fel bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu'n deg, ac wedi symleiddio'r prosesau ar gyfer cyfarfodydd fel bod amser yn cael ei ddefnyddio'n fwy cynhyrchiol. Mae arweinwyr wedi rheoli'r newidiadau hyn â sensitifrwydd arbennig i sicrhau bod unigolion yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau. Mae'r pennaeth wedi mynd i'r afael ag unrhyw achosion o danberfformio yn drylwyr, ond yn yr un modd gofalgwr. Mae hyn wedi cyfrannu at ymdeimlad cryf o deyrngarwch a chyd-dynnu ymhlith staff.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu rolau'n dda. Mae arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan uwch gydweithwyr ac yn gweithio ag ymroddiad tuag at fodloni blaenoriaethau'r ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn addas ac yn gefnogol, ac yn darparu digonedd o gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol perthnasol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder sylweddol. Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau cryf â'i hysgolion cynradd partner a'r coleg chweched dosbarth i gefnogi cyfnod pontio effeithiol ar gyfer disgyblion a pharhad yn y cwricwlwm. Mae arweinwyr

yn meithrin perthnasoedd cynhyrchiol â nifer o sefydliadau i gefnogi uchelgais yr ysgol i ganolbwyntio ar y gymuned.

Mae llywodraethwyr yn brofiadol ac yn gefnogol iawn i'r ysgol. Maent yn dangos dyletswydd foesol gref i wneud gwahaniaeth i gyfleoedd disgyblion mewn bywyd ac i'w cymuned leol. Maent yn herio'n briodol ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o waith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn rhoi sylw priodol i'r trefniadau i ddisgyblion fwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth yn gweithio'n agos â'r rheolwr busnes i sicrhau bod cynlluniau gwariant yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r ysgol. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r ysgol a'r ffaith fod ganddi gynlluniau priodol ar waith i wella cyfleusterau, mae'r ffreutur presennol, y toiledau ac ystafelloedd newid y bechgyn yn anaddas, yn bennaf oherwydd nifer gynyddol y disgyblion ar y gofrestr. Defnyddir arian grant yn effeithiol, ac mae'r ysgol yn rhagweithiol ac yn greadigol wrth chwilio am ffynonellau incwm. Mae'r ysgol yn defnyddio'i grant datblygu disgyblion i ariannu amrywiaeth o weithgareddau priodol i fynd i'r afael ag effaith anfantais. Mae arweinwyr yn gwerthuso'r strategaethau hyn yn ofalus gan ddefnyddio systemau olrhain yr ysgol.

Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau i'w phrosesau hunanwerthuso ac wedi datblygu cyfres addas o dulliau systematig yn canolbwyntio ar werthuso ac effaith. Mae uwch arweinwyr yn cynorthwyo arweinwyr canol yn dda i gasglu tystiolaeth i lywio cynllunio gwelliant. Mae hyn wedi helpu gwella agweddau ar waith yr ysgol fel adborth i ddisgyblion. Mae arweinwyr canol yn myfyrio'n ystyriol ar eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn dadansoddi data'n fanwl i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn deilliannau. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, defnyddir y data hwn ochr yn ochr ag arsylwadau o gynnydd disgyblion mewn gwersi ac yn eu gwaith i ddarparu darlun buddiol o ddysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, er bod sicrhau ansawdd ysgol gyfan ac adrannol yn werthusol, ar y cyfan, nid yw'n canolbwyntio'n ddigon manwl gywir ar y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu a dysgu. Yn benodol, ni roddir ystyriaeth ddigon cryf i'r berthynas rhwng dulliau addysgu a chynnydd disgyblion. Hefyd, mae ychydig o brosesau sicrhau ansawdd yn tueddu i ganolbwyntio ar agweddau ar gydymffurfio ar draul effeithiolrwydd. Mae hyn yn golygu nad yw blaenoriaethau ar lefel adrannol ac ysgol gyfan yn ddigon penodol i alluogi'r ysgol i fireinio, er enghraifft mewn agweddau penodol ar addysgu.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ymagwedd strategol at ddysgu proffesiynol. Ategir hyn gan egwyddorion a ddeallir yn glir i sicrhau ei bod yn cefnogi blaenoriaethau gwella ysgol gyfan yn effeithiol. Caiff cyfleoedd datblygu, gan gynnwys rhannu arfer dda, eu nodi trwy brosesau sicrhau ansawdd ac ymgynghori â staff i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion meysydd pwnc a staff unigol hefyd. Ceir cyfleoedd teilwredig i staff ddatblygu eu medrau arwain trwy gyrsiau ffurfiol ac mewn cymorth yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi galw sawl gweithgor ynghyd i ddatblygu ymagweddau at flaenoriaethau ysgol penodol fel y Cwricwlwm i Gymru ac addysgu. Mae'r rhain wedi darparu cyfleoedd datblygiadol gwerthfawr ar gyfer staff. Mae dysgu proffesiynol i gefnogi datblygiad addysgu wedi arwain at iaith fuddiol ar y cyd i athrawon drafod eu harferion. Mae arweinwyr yn gwerthuso'r cyfleoedd hyn yn briodol ac yn addasu ymagweddau, yn ôl yr angen. O ganlyniad, caiff dysgu proffesiynol effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol, yn enwedig ansawdd yr addysgu, a chaiff ei werthfawrogi'n fawr gan staff.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (<http://www.estyn.llyw.cymru/>)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru/](http://www.estyn.llyw.cymru/)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/05/2023